

Senedd Cymru

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a  
Chysylltiadau Rhyngwladol**

---

# **Blaenoriaethau a strategaeth ar gyfer y Chweched Senedd 2021-26**

Mawrth 2022



## Rhagair y Cadeirydd

Yn dilyn sefydlu Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol Senedd Cymru, cytunodd yr Aelodau i gynnal cyfres o ymchwiliadau undydd ar gyfer pob sector o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, er mwyn deall yn well y materion sy'n ei wynebu yn y Chweched Senedd. Bwriad yr ymarfer hwn hefyd oedd llywio blaenoriaethau'r Pwyllgor ar gyfer 2021-26.

Mae'r heriau sy'n wynebu gwaith y Pwyllgor a'i randdeiliaid yn dra gwahanol i unrhyw adeg arall ers dechrau datganoli. Mae effaith y pandemig ymhell o fod drosodd, ac ar yr un pryd mae'n rhaid i lawer o sectorau o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor addasu'r ffordd y maent yn gweithredu yn dilyn ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r ddau fater hyn yn unig yn peri heriau sylweddol i'r llywodraeth, y gymdeithas sifil a'r cyhoedd yn ehangach yng Nghymru.

I'r perwyl hwnnw, yn ystod hydref a gaeaf 2021/22, bu'r Pwyllgor yn ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid, er mwyn deall yn well effaith y pandemig a Brexit ar ein gwaith, yn ogystal â beth ddylai blaenoriaethau'r Pwyllgor fod ar gyfer y Chweched Senedd. Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i'r rhai sydd wedi rhoi tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig i lywio'r ystyriaethau hyn.

Mae'r ddogfen hon yn nodi dull y Pwyllgor o weithio ar gyfer y Chweched Senedd yn ogystal â rhoi amlinelliad o'r materion allweddol y gallai fod angen i ni roi sylw iddynt yn y blynyddoedd i ddod. Fodd bynnag, nid yw'n cyfyngu ar ein gallu i adolygu ac ymchwilio i faterion newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg wrth iddynt godi yn ystod y cyfnod hwn. Os oes gennych unrhyw safbwyntiau ar faterion y dylai'r Pwyllgor edrych arnynt, croeso i chi gysylltu drwy anfon neges e-bost at [senedddiwylliant@senedd.cymru](mailto:senedddiwylliant@senedd.cymru). Mae'r ddogfen hon yn cael ei chyhoeddi i sicrhau tryloywder gwaith y Pwyllgor a galluogi deialog cynhyrchiol pellach gyda rhanddeiliaid sydd â diddordeb yn ein gwaith.



Delyth Jewell AS

Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

## 1. Cyflwyniad

- 1.** Sefydlwyd Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol Senedd Cymru ar 23 Mehefin 2021 i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei materion gwariant, gweinyddu a pholisi sy'n dod o fewn ein cylch gorchwyl. Gall rhywfaint o waith y Pwyllgor hefyd ymestyn i faterion sy'n gyfrifoldeb i Lywodraeth y DU a chyrrff a sefydliadau ledled y DU, ond sy'n cael effaith sylweddol ar Gymru.
- 2.** Mae'r rhestr o faterion polisi sydd o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i): diwylliant; y celfyddydau; yr amgylchedd hanesyddol; cyfathrebu; darlledu; y cyfryngau; y Gymraeg; chwaraeon; a chysylltiadau rhyngwladol.
- 3.** Cyfarfu'r Pwyllgor am y tro cyntaf ar 14 Gorffennaf 2021 ac fe wnaethom gytuno i lansio ymgynghoriad ar ein blaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd. Gofynnodd yr ymgynghoriad hwn i randdeiliaid beth oedd eu blaenoriaethau ar gyfer rhaglen waith y Pwyllgor. Roedd hyn yn cynnwys gofyn i unigolion a sefydliadau am effaith pandemig COVID-19 ac ymadawiad y DU â'r UE ar eu sefydliad a'u sector.
- 4.** Daeth cyfanswm o 39 o gyflwyniadau ysgrifenedig i law gan randdeiliaid. Rhwng mis Medi 2021 a mis Chwefror 2022, cynhaliodd y Pwyllgor gyfres o ymchwiliadau undydd penodol i'r sector i lywio'r gwaith o ddatblygu ei flaenoriaethau gwaith ymhellach. Amlinellir manylion y dystiolaeth hon yn Atodiadau A a B.
- 5.** At hynny, cyfarfu'r Pwyllgor ar 13 Medi 2021 a 15 Rhagfyr 2021 i drafod ein strategaeth ar gyfer tymor y Senedd hon. Roedd y rhain yn cynnwys trafodaethau ar ein blaenoriaethau gwaith a'n trefniadau gweithredu fel Pwyllgor.
- 6.** Mae gweddill y ddogfen hon yn nodi penderfyniadau'r Pwyllgor ar ein dull strategol a'n blaenoriaethau gwaith ar gyfer tymor hwn y Senedd.

## 2. Dull strategol ar gyfer y Chweched Senedd

**7.** Mae'r dull gweithredu y cytunwyd arno gan y Pwyllgor ar gyfer y Chweched Senedd wedi'i nodi isod.

### Diben

- Craffu ar bolisi a deddfwriaeth, a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif am y Gymraeg, diwylliant, y celfyddydau, y diwydiannau creadigol, yr amgylchedd hanesyddol, cyfathrebu, darlledu, chwaraeon a chysylltiadau rhyngwladol.

### Gwerthoedd

Bydd y Pwyllgor yn:

- hyrwyddo, ac yn gweithredu fel hyrwyddwr ar ran y sectorau sy'n dod o fewn ein cylch gorchwyl;
- gweithio i sicrhau mynediad cyfartal a chyfranogiad mewn diwylliant, y celfyddydau, treftadaeth, y Gymraeg a chwaraeon i bawb yng Nghymru;
- ysgogi newid drwy fod yn heriol, yn effeithiol ac yn adeiladol yn ein gwaith craffu.

### Amcanion

Bydd y Pwyllgor yn:

- gweithredu fel ffrind beirniadol i Lywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi, ac yn craffu ar gyflawni ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio;
- craffu ar weithgarwch Llywodraeth y DU a chyrrff perthnasol eraill yn y DU sy'n ymwneud â Chymru;
- sicrhau bod ystod o leisiau gwahanol yn cael eu clywed ar faterion sy'n effeithio arnynt;
- gweithredu'n dryloyw ac yn hygyrch yn ein holl weithgareddau i sicrhau bod cynnydd ein gwaith yn agored ac yn glir i bawb.

### Canlyniadau

Bydd y Pwyllgor yn:

---

- sefydlu a chynnal perthynas ag ystod eang o randdeiliaid i sicrhau bod amrywiaeth o leisiau'n cael eu cynrychioli yn ein gwaith;
- sicrhau bod ein gwaith yn cael ei lunio gan brofiadau bywyd go iawn drwy gyfarfod a dysgu gan bobl ar lawr gwlad o wahanol gefndiroedd ledled Cymru;
- hygyrch i'r holl randdeiliaid drwy normaleiddio dull gweithredu hyblyg gan gynnwys cyfarfod ar sail hybrid fel gofyniad safonol;
- darparu asesiad gonest o'n perfformiad drwy gyhoeddi adroddiad blynyddol ar ddiwedd pob tymor yr haf; a sicrhau tryloywder drwy gyhoeddi blaengynllun gwaith ar ddechrau pob mis Medi;
- cyhoeddi a hyrwyddo adroddiadau ysgrifenedig ar waith craffu'r Pwyllgor sy'n pennu argymhellion ymestynnol ar gyfer y cyrff cyhoeddus perthnasol, a cheisio eu dwyn i gyfrif am gyflawni yn erbyn yr argymhellion hyn yn ystod y Chweched Senedd.

### 3. Blaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd

8. Yn ystod ail hanner 2021 a dechrau 2022, cynhaliodd y Pwyllgor gyfres o ymchwiliadau undydd ac ymgynghoriad ysgrifenedig i nodi ein blaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd. Gofynnwyd i randdeiliaid o bob rhan o gylch gorchwyl y Pwyllgor:

- Beth yw effaith bresennol pandemig COVID-19 ar eu sector, a pha gymorth pellach sydd ei angen gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i liniaru'r effaith bresennol a chefnogi'r adferiad ar ôl y pandemig?
- Pa faterion y dylai'r Pwyllgor eu blaenoriaethu wrth gynllunio ein rhaglen waith ar gyfer y tymor byr a'r tymor hwy? a
- Sut mae Brexit a'r berthynas newydd rhwng y DU a'r UE yn effeithio ar eu sefydliad, pa gymorth y maent wedi'i gael i ymateb i'r newidiadau, a pha gymorth pellach, os o gwbl, sydd ei angen gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU?

9. Dywedasom ar y pryd, yn ychwanegol at y blaenoriaethau a nodwyd, ei bod yn debygol y bydd materion eraill yn codi y byddai angen i'r Pwyllgor roi sylw iddynt. Gallai hyn olygu ymateb i ddigwyddiad neu o ganlyniad i fater a godwyd gan randdeiliad neu etholwr. Byddai'r Pwyllgor yn ystyried y materion hyn, pe baent yn codi, ac mae croeso bob amser i randdeiliaid gysylltu â'r Pwyllgor gydag unrhyw faterion y mae angen tynnu ein sylw atynt.

10. Nodir crynodeb o ystyriaethau a blaenoriaethau'r Pwyllgor ar gyfer pob sector isod.

#### Diwylliant

11. Mae'r Pwyllgor yn ymdrin â materion fel y celfyddydau, treftadaeth (amgueddfeydd, archifau a threftadaeth adeiledig) a'r diwydiannau creadigol fel rhan o'n gwaith o dan y teitl 'diwylliant'. Ceir crynodeb isod o'r hyn y mae'r Pwyllgor yn ei ystyried yw'r prif heriau yn y rhan Diwylliant o'n cylch gwaith.

12. Mae Llywodraeth Cymru wedi ailddechrau gwaith ar ei **strategaeth ddiwylliannol**. Ar 19 Ionawr 2022, dywedodd Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon a'r Prif Chwip wrth y Pwyllgor fod y Llywodraeth ddiwethaf eisoes wedi dechrau gweithio ar strategaeth a'i bod yn disgwyl 'papur cychwynnol gan swyddogion yn weddol fuan'<sup>1</sup>, ond y bydd yr amserlenni'n cael eu pennu gan ei hymgyngoriadau â'r sector. Mae nifer o randdeiliaid y Pwyllgor wedi dweud

---

<sup>1</sup> Paragraff 118, Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol 19 Ionawr 2022

pa mor bwysig yw'r strategaeth hon i'r sector yn gyffredinol, a hynny'n fwy byth o ystyried y diffyg manylion ynghylch blaenoriaethau diwylliannol y Rhaglen Lywodraethu.

**13.** Ar wahân i'r strategaeth ddiwylliannol, mae her o hyd i rai rhannau o'r sector wrth **ddigidoleiddio casgliadau**. Clywodd y Pwyllgor blaenorol yn y Bumed Senedd (Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu) fod amgueddfeydd, llyfrgelloedd a sefydliadau treftadaeth wedi buddsoddi eu hamser a'u hadnoddau i ddigidoleiddio eu casgliadau yn ystod y cyfyngiadau symud COVID-19 cyntaf. Pwysleisiodd y rhai a gymerodd ran yn yr [ymchwiliad i effaith COVID](#) ar y sector hwn fod yr arfer o ddigidoleiddio casgliadau yn eu galluogi i gyrraedd cynulleidfa lawer ehangach ond y byddai angen buddsoddiad cynyddol a pharhaus mewn gweithgarwch digidol.

**14.** Mae **goroesiad ac adferiad parhaus y sector diwylliannol yn dilyn Covid-19** yr un mor bwysig yn awr ag yr oedd ddwy flynedd yn ôl. Mae'r rhai sy'n cynnal lleoliadau cerddoriaeth fyw, theatrau a sinemâu wedi gweld eu hincwm yn cael ei effeithio gan ofynion pasys COVID-19, cadw pellter cymdeithasol a rheoliadau'r cyfyngiadau symud. Dywedodd Gweinidog yr Economi ar 19 Ionawr 2022 wrth y Pwyllgor fod cefnogaeth i'r sector hyd yn hyn wedi ymwneud â sicrhau ei fod yn goroesi ac y bydd y camau nesaf yn ymwneud ag adferiad<sup>2</sup>. Mae effaith y pandemig hefyd wedi taro gweithwyr yn galed iawn – mae tua 80 y cant o weithwyr yn y sector diwylliannol yn weithwyr llawrydd, ac mae hanner ohonynt wedi colli dros 80 y cant o'u gwaith yn ystod 2021<sup>3</sup>. Bydd sicrhau bod y sector a'i weithwyr yn gwella'n dda yr un mor bwysig â'i oroesiad cychwynnol, fel arall bydd y cyllid a ddarparwyd i'r sector yn ystod cyfnodau dwys y pandemig yn cael ei wastraffu.

**15.** Mae'r Pwyllgor wedi cytuno y bydd **sicrhau mynediad a chyfranogiad cyfartal** yn un o'r gwerthoedd sy'n llywio ein gwaith ar gyfer y Chweched Senedd. O ystyried hyn, a materion yn ymwneud ag anabledd a hil yn y celfyddydau yng Nghymru a nodwyd mewn adroddiadau gan Amgueddfa Genedlaethol Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru, mae'r Pwyllgor o'r farn bod lle i adolygu hyn yn ystod y Chweched Senedd. Roedd yr adroddiadau y soniwyd amdanynt uchod yn canolbwyntio ar ymgysylltu ag ardaloedd tlawd lled-wledig, amrywiaeth ddiwylliannol ac ethnig ac anabledd. Cyhoeddodd yr Amgueddfa a Chyngor y Celfyddydau eu [Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad](#) ym mis Chwefror 2022, gan ddweud:

*'Rydyn ni'n ymroi i ddatblygu dull ar gyfer y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth sy'n ymgysylltu'n rhagweithiol ag unigolion a chymunedau ar draws Cymru wrth*

<sup>2</sup> Paragraff 24, Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol 19 Ionawr 2022

<sup>3</sup> <https://cfw.wales/adferiad>

*benderfynu beth yw diwylliant, pryd mae'n digwydd, pwy sy'n ei greu a phwy sy'n ei brofi.'*

**16.** Mynegwyd pryderon ynghylch **prinder sgiliau** mewn diwydiannau sgrin am y tro cyntaf yn adroddiad y Pwyllgor blaenorol ar gynyrchiadau ffilm a theledu mawr yn 2018. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad y dylai ei gwneud yn ofynnol i Cymru Greadigol lunio strategaeth sgiliau sy'n darparu gwybodaeth am y gweithlu; archwiliadau o leoliadau hyfforddi; ac yn nodi bylchau sgiliau y mae angen eu llenwi. Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi'r dasg i Cymru Greadigol o reoli strategaeth sgiliau ar gyfer y diwydiannau creadigol yn ehangach. Codwyd y mater hwn yn yr ymgynghoriad ar Gyllideb Ddrafft 2022/23 gan yr wyth cwmni cenedlaethol a ariannir gan Gyngor y Celfyddydau<sup>4</sup>.

**17.** Cytunodd y Pwyllgor y gallai gwaith posibl ar Ddiwylliant yn y Chweched Senedd gynnwys:

- craffu blynyddol ar gyrff a noddir gan y cyhoedd (Y Llyfrgell Genedlaethol, yr Amgueddfa Genedlaethol, Cyngor y Celfyddydau ac ati) a Llywodraeth Cymru;
- adolygu effeithiau parhaus Brexit ar ddiwylliant a llesiant;
- adolygu cynnydd a chyflawni'r strategaeth ddiwylliannol sydd i ddod;
- heriau a chyfleoedd o ran defnyddio technolegau digidol yn y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth;
- adferiad y sector yn sgil effaith pandemig COVID-19;
- cefnogi gweithwyr llawrydd;
- mynediad at y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth;
- datblygu sgiliau yn y sector diwylliannol.

## Cyfathrebu

**18.** Mae gwaith y Pwyllgor ar "Gyfathrebu" yn cynnwys materion fel newyddiaduraeth, darlledu ar y teledu, darlledu ar y radio, y cyfryngau digidol a rheoleiddio'r cyfryngau (Ofcom). Ceir crynodeb isod o'r hyn y mae'r Pwyllgor yn ei ystyried yw'r prif heriau yn y rhan Cyfathrebu o'n cylch gwaith.

---

<sup>4</sup> Ymateb i Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar ran aelodau'r wyth Cwmni Cenedlaethol a ariennir gan Gyngor Celfyddydau Cymru

---



**19.** Mae'r degawd diwethaf wedi gweld newid sylweddol o ddefnyddio newyddion print i newyddion digidol. Mae hyn yn cyd-fynd â cholli swyddi a chau papurau newydd wrth i gyhoeddwrwyr frwydro i sicrhau gwerth ariannol ar y cynnydd hwn mewn traffig digidol. Mae hyn wedi creu **argyfwng yn y ddarpariaeth newyddion lleol**. Yn y Bumed Senedd, creodd Llywodraeth Cymru Gronfa Newyddiaduraeth Gymunedol Annibynnol a oedd yn werth tua £200,000. Mae ffynonellau cymorth eraill ar gael hefyd drwy Gyngor Llyfrau Cymru ar gyfer cyfryngau o'r fath. O ystyried pwysigrwydd newyddion lleol i lawer o gymunedau, ac yn wyneb y cyfryngau print sy'n prinhau, gallai fod yn amserol adolygu'r ddarpariaeth ac ystyried sut mae'n gwasanaethu cymunedau lleol yng Nghymru.

**20.** Ym mis Ionawr 2022, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon gynlluniau ar gyfer rhewi ffi'r drwydded am y ddwy flynedd nesaf<sup>5</sup>. Fe wnaeth y cyhoeddiad hwn roi hwb i'r ddadl ynglŷn â **modelau ariannu yn y dyfodol ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus** yn y DU. Gan fod Cymru'n fwy dibynnol ar ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus nag unrhyw le arall yn y DU, mae effaith unrhyw fodolau ariannu yn y dyfodol yn debygol o gael effaith anghymesur ar Gymru.

**21.** Roedd yr ymchwiliad undydd cyntaf a gynhaliwyd gan y Pwyllgor yn y Chweched Senedd yn ymwneud â rheoleiddio dyfodol darlledu gwasanaethau cyhoeddus. Roedd hwn yn adolygiad o'r argymhellion a wnaed gan adroddiad "Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr". Cymeradwyodd y Pwyllgor argymhellion Ofcom ar gyfer rheoleiddio cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol. Byddai'r camau nesaf y bydd angen eu hystyried yn dilyn yr adroddiad hwn yn cynnwys **moderneiddio'r broses o reoleiddio cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus** i sicrhau ei bod yn addas ar gyfer y modd y mae pobl yn defnyddio cynnwys fideo.

**22.** Cytunodd y Pwyllgor y gallai gwaith posibl ar Gyfathrebu yn y Chweched Senedd gynnwys:

- craffu blynyddol ar ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus (gan gynnwys y BBC, ITV ac S4C), Ofcom a Llywodraeth Cymru;
- cymorth i newyddiaduraeth newyddion yng Nghymru;
- cyllid yn y dyfodol ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru;
- moderneiddio'r broses o reoleiddio darlledu gwasanaeth cyhoeddus;

<sup>5</sup> <https://www.gov.uk/government/speeches/dcms-secretary-of-states-oral-statement-on-the-licence-fee-settlement>

- y maes darlledu yng Nghymru.

## Y Gymraeg

**23.** Mae cyfrifoldebau'r Pwyllgor am y Gymraeg fel pwnc yn berthnasol i'r ffordd y cymhwysir polisi y Gymraeg yn gyffredinol. Mae'r pwnc hwn yn fwy tebygol o orgyffwrdd â meysydd polisi eraill, megis addysg a thai, nag unrhyw un arall o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor. Y rheswm am hyn yw ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru, ar gyfer pob gweinyddiaeth newydd, fabwysiadu strategaeth y Gymraeg sy'n nodi sut y maent yn bwriadu hyrwyddo'r Gymraeg a hwyluso defnydd ohoni. Lle bo hynny'n digwydd, efallai y bydd y Pwyllgor yn penderfynu ymgymryd â gwaith ar fater penodol gyda'r pwyllgor perthnasol e.e. gweithio gyda'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar y Bil addysg cyfrwng Cymraeg sydd i ddod.

**24.** Mae targed **Cymraeg 2050** Llywodraeth Cymru bellach lai na deng mlynedd ar hugain i ffwrdd, ac mae'r rhan fwyaf o'r gwaith sy'n gysylltiedig â'r Gymraeg wedi'i anelu at gyrraedd y targed hwnnw. At hynny, disgwylir i ystadegau Cyfrifiad 2021 gael eu cyhoeddi ar ddiwedd 2022. Bydd y rhain yn rhoi cipolwg ar faint o gynnydd mae'r Llywodraeth yn ei wneud tuag at ei tharged o sicrhau 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. O ystyried pwysigrwydd y nod hwn, mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai gwaith ar hyn gael ei adolygu'n rheolaidd. Byddai hyn yn cynnwys monitro cynnydd yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol gan sicrhau bod y nod ar y trywydd iawn i gael ei gyflawni. Mae llawer o'r materion eraill a nodir yn yr adran hon yn cyfrannu yn y pen draw at darged 2050.

**25.** Mae'n ddeng mlynedd ers i **Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg** ddod yn weithredol, a chael eu gosod ar sail statudol drwy ddarpariaethau yn Neddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Dywedodd Llywodraeth Cymru mewn canllawiau a gyhoeddwyd yn ddiweddar i awdurdodau<sup>6</sup> lleol:

*'Bydd ein cyfraniadau heddiw, a'ch cyfraniadau wrth weithredu eich Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg dros y 10 mlynedd nesaf, yn ein helpu i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg.'*

**26.** Disgwylir i'r **Bil addysg Cyfrwng Cymraeg** hirddisgwyliedig gael ei gyhoeddi yn ystod y Chweched Senedd. Gan ei bod bellach yn ddeng mlynedd ers cyflwyno Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a chyda deddfwriaeth arfaethedig ar y gorwel, mae'r Pwyllgor o'r farn y gallai fod yn amserol asesu effaith fframwaith Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg. Gall hyn gynnwys asesu i ba raddau y mae wedi gwella'r gwaith o gynllunio darpariaeth addysg

---

<sup>6</sup> <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-02/canllawiau-gynlluniau-strategol-cymraeg-addysg.pdf>

---

cyfrwng Cymraeg ledled Cymru, ac a yw wedi cyfrannu at gynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg a nifer y bobl sy'n siarad yr iaith.

**27.** Mae nifer o elfennau o fewn y system addysg a allai ddylanwadu ar darged 2050 gan gynnwys: dilyniant dysgwyr o'r meithrin hyd at addysg uwchradd; cynyddu nifer y dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg; sicrhau bod digon o athrawon cyfrwng Cymraeg i gyflwyno'r ddarpariaeth; a datblygu addysg cyfrwng Cymraeg yng nghategori 1 (ysgolion cyfrwng Saesneg) ac ysgolion categori 2 (dwy iaith). Mae pwyslais o'r newydd ar ddull **"o'r crud i'r bedd" at ddysgu cyfrwng Cymraeg**. Mae'r Pwyllgor o'r farn y bydd ei lwyddiant yn hanfodol os ydym am gyrraedd targedau Cymraeg 2050.

**28.** O 2022-23, dyrannwyd £8 miliwn ychwanegol i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol dros gyfnod o dair blynedd (hyd at 2024-25) i helpu i gefnogi datblygiad **prentisiaethau ac addysg bellach cyfrwng Cymraeg**. Nid yw'r sector Addysg Bellach wedi cael yr un lefel o ffocws o ran datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg o'i gymharu â sectorau eraill. Gan fod hwn yn faes polisi sy'n datblygu, mae'r Pwyllgor o'r farn y byddai'n werth adolygu cynnydd hwn dros y blyneddau i ddod i sicrhau ei fod yn bodloni'r nodau a osodwyd.

**29.** Cyflwynodd Mesur y Gymraeg (Cymru) (2011) **safonau'r Gymraeg** sy'n gosod dyletswyddau ar gyrfff cyhoeddus (ar y cyfan) yng Nghymru. Mae'r safonau hyn yn hyrwyddo ac yn hwyluso'r iaith, ac yn sicrhau nad yw'n cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru. Nid yw'r safonau wedi cael eu gosod eto ar lawer o sectorau. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am osod rheoliadau safonau'r Gymraeg ar wahanol sectorau. Bu'r Pwyllgor blaenorol yn y Bumed Senedd yn craffu ar reoliadau drafft safonau'r Gymraeg - patrwm a fydd yn debygol o barhau yn ystod y Chweched Senedd.

**30. Mae'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith gymunedol** dan fygythiad mewn sawl rhan o Gymru. Mae angen ymyriadau amrywiol i gefnogi a hyrwyddo'r iaith er mwyn sicrhau ei hyfywedd am genedlaethau i ddod. Mae rhanddeiliaid wedi sôn wrth y Pwyllgor am eu pryderon ynghylch: effaith perchnogaeth ail gartrefi; yr angen am gyfleoedd gwaith â chyflog da i bobl ifanc aros yn eu cymunedau; a'r angen am fwy o gymorth i oedolion ddysgu Cymraeg ledled Cymru.

**31.** Cytunodd y Pwyllgor y gallai gwaith posibl ar y Gymraeg yn y Chweched Senedd gynnwys:

- craffu blynyddol ar gyrfff a noddir gan y cyhoedd (gan gynnwys Comisiynydd y Gymraeg) a Llywodraeth Cymru;
- craffu blynyddol neu reolaidd ar dargedau 2050;

- mesur llwyddiant Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESPs);
- craffu ar safonau'r Gymraeg;
- ffactorau sy'n effeithio ar y Gymraeg fel iaith gymunedol;
- adolygu cyfleoedd addysg cyfrwng Cymraeg.

## Chwaraeon

**32.** Mae chwaraeon yn faes pwnc newydd i'r Pwyllgor hwn o'i gymharu â'i Bwyllgor rhagflaenol yn y Bumed Senedd. Mae gwaith y Pwyllgor ar hyn yn cynnwys yr holl faterion sy'n ymwneud â chwaraeon, gweithgarwch corfforol a digwyddiadau chwaraeon.

**33.** Fel y nodwyd eisoes yn yr adroddiad hwn, mae mynediad a chyfranogiad yn un o werthoedd y Pwyllgor ar gyfer ein gwaith yn y Chweched Senedd. Lansiodd y Pwyllgor alwad am dystiolaeth ysgrifenedig ar gyfer ymchwiliad i gyfranogiad mewn **chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig yn ystod gwanwyn 2022**. Bydd sesiynau tystiolaeth lafar a'r ymweliadau â sefydliadau perthnasol yn cael eu cynnal o fis Mawrth tan haf 2022. Wrth ystyried ffocws yr ymchwiliad hwn, bu'r Pwyllgor hefyd yn ystyried **cyfranogiad mewn chwaraeon** ymhlith pobl hŷn a phlant. Gall gweithgarwch corfforol pan rydych yn hŷn wella canlyniadau iechyd a lleihau unigrwydd ac unigedd. Ar y llaw arall, y farn gyffredin yw bod plant a phobl ifanc sy'n egnïol yn fwy tebygol o gyfranogi drwy gydol eu hoes (cwblhawyd adolygiad o hyn yn y Bumed Senedd). Y naill ffordd neu'r llall, mae'r Pwyllgor o'r farn bod rhesymau cryf dros ymchwilio i gyfranogiad mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn gyffredinol.

**34.** Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2022/23, dywedodd Llywodraeth Cymru ei fod yn bosibl i **chwaraeon fod yn "un o'r arfau ataliol gorau yng nghyswllt iechyd"**. Fel y nododd y Pwyllgor hwn yn ein hadroddiad craffu, nid oedd yn ymddangos bod y dyraniadau cyllid ar gyfer Chwaraeon yn y Gyllideb Ddrafft yn ategu'r hawliad hwn. Yn ystod ymchwiliad undydd y Pwyllgor, dywedodd Chwaraeon Cymru yr hoffai wneud mwy yn y maes hwn, gan weithio ar draws gwahanol sectorau, i gyflawni'r nod hwn<sup>7</sup>.

**35.** Daeth strategaeth digwyddiadau chwaraeon mawr flaenorol Llywodraeth Cymru i ben yn 2020. Rhwng 2008 a 2020, mae Cymru wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau chwaraeon byd-eang gan gynnwys Gêm Derfynol Cynghrair Pencampwyr UEFA a Chwpan Ryder. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes dull clir gan Lywodraeth Cymru o ran sut y mae'n bwriadu adeiladu ar y llwyddiant hwn yn y dyfodol. Mae cais ar y cyd wedi'i wneud rhwng y DU ac

---

<sup>7</sup> Paragraff 25, Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol 20 Hydref 2021

Iwerddon ar gyfer y Pencampwriaethau Pêl-droed Ewropeaidd yn 2028. Ar wahân i hynny, nid oes eglurder ynghylch ei dull o gynnal digwyddiadau chwaraeon mawr yn y dyfodol. Mae cwestiynau hefyd ynghylch beth fyddai manteision cynnal digwyddiadau o'r fath: yr effaith economaidd o ganlyniad i wariant; mwy o gyfranogiad mewn chwaraeon sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad penodol; neu wella cysylltiadau diwylliannol â gwledydd sy'n bresennol.

**36.** Cytunodd yr Aelodau y gallai gwaith posibl ar Chwaraeon yn y Chweched Senedd gynnwys:

- craffu blynyddol ar gyrff a noddir gan y cyhoedd (gan gynnwys Chwaraeon Cymru) a Llywodraeth Cymru;
- cyfranogiad chwaraeon ymhlith pobl hŷn, a phlant a phobl ifanc;
- rôl chwaraeon fel mesur hyrwyddo iechyd;
- dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â digwyddiadau chwaraeon mawr.

## Cysylltiadau Rhyngwladol

**37.** Yn yr un modd â chwaraeon, mae'r cylch gorchwyl Cysylltiadau Rhyngwladol yn newydd i'r Pwyllgor hwn o'i gymharu â'i Bwyllgor rhagflaenol yn y Bumed Senedd. Fodd bynnag, mae'r cyd-destun rhyngwladol y mae'r Chweched Senedd yn gweithredu ynddo wedi newid yn sylweddol o'i gymharu â'r Senedd flaenorol. **Mae ymadawiad y DU â'r UE a COVID-19 ill dau wedi newid yn sylfaenol y ffordd y mae Cymru a'r DU yn ymgysylltu â'r byd.** Mae materion fel yr argyfwng hinsawdd, sero net a mudiadau rhyngwladol eraill ar gydraddoldeb a chyfiawnder wedi ennill lle mwy blaenllaw ar yr agenda. Cyhoeddwyd [strategaeth ryngwladol](#) Llywodraeth Cymru pan oedd y materion hyn yn parhau i ddod i'r amlwg.

**38.** Yn y Bumed Senedd, roedd Gweinidog Cysylltiadau Rhyngwladol penodedig yn gyfrifol am gyflawni'r strategaeth. Y Prif Weinidog sy'n gyfrifol bellach am arwain ar faterion sy'n ymwneud â chysylltiadau rhyngwladol, **Cymru yn Ewrop, y swyddfeydd tramor** a datblygu cysylltiadau â **Chymru ar wasgar**. Mae meysydd polisi eraill a gwmpesir gan y strategaeth a oedd gynt ym mhortffolio'r cyn-Weinidog Cysylltiadau Rhyngwladol, fel masnach a Rhaglen Cymru ac Affrica, bellach yn gyfrifoldeb i Weinidogion eraill yn Llywodraeth Cymru.

**39.** Soniodd rhanddeiliaid wrth y Pwyllgor am y cyd-destun newidiol hwn. Er nad oeddent yn dadlau o blaid diwygio'r strategaeth yn gyfan gwbl, tynnwyd sylw at yr **angen i ailffocysu neu adnewyddu rhai elfennau o'r strategaeth ryngwladol**. Roedd hyn yn cynnwys yr angen i Lywodraeth Cymru gyfan - nid yr is-adran cysylltiadau rhyngwladol yn unig - fynegi canlyniadau

---

clir ac uchelgeisiol ar gyfer **Cymru yn y cyd-destun byd-eang sy'n newid**. Soniwyd am fanteision ac anfanteision peidio â chael Gweinidog Cysylltiadau Rhyngwladol penodedig, a'r angen i sicrhau nad yw gweithio ar draws sectorau ar faterion rhyngwladol yn cael ei golli heb ganolbwynt o fewn Llywodraeth Cymru i ddod â gwahanol weithgareddau rhyngwladol at ei gilydd.

**40.** Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio pwysigrwydd cydlynu ei gweithgareddau rhyngwladol gyda sefydliadau eraill sy'n gweithio dramor. Dywedodd rhai rhanddeiliaid wrth y Pwyllgor eu bod yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru mewn meysydd blaenoriaethau ar y cyd, a bod rhai sefydliadau allanol wedi'u penodi'n bartneriaid cyflawni i gefnogi'r gwaith o weithredu'r strategaeth ryngwladol. Fodd bynnag, tynnodd rhai rhanddeiliaid sylw at y ffaith bod ymgysylltu â Llywodraeth Cymru yn y maes hwn wedi bod yn anghyfartal ac yn aml yn 'ad hoc', ond bod cyfleoedd sylweddol ar gael i gydweithio'n agosach.

**41.** O ystyried cwrpas eang y cylch gorchwyl cysylltiadau rhyngwladol, bydd y Pwyllgor yn edrych ar ffyrdd newydd o gyflawni ein cylch gorchwyl cysylltiadau rhyngwladol. Bydd y Pwyllgor hefyd yn defnyddio cyfleoedd i ymgysylltu'n rhyngwladol ac yn allanol yn y maes hwn o'n gwaith a chynnwys ymgysylltiad rhyngwladol yn ein hymchwiliadau polisi eraill, lle y bo'n briodol. Mae hyn yn debygol o gynnwys dulliau craffu mwy traddodiadol fel sesiynau gyda Gweinidogion a sefydliadau cyflawni perthnasol. Bydd hefyd yn cynnwys gwaith monitro rheolaidd ar weithgarwch rhyngwladol a wneir gan Weinidogion Cymru a cheisio cyfleoedd i gydweithio â Phwyllgorau eraill fel y bo'n briodol.

**42.** Cytunodd yr Aelodau y bydd y gwaith craffu ar faterion cyffredinol yn y Chweched Senedd yn cynnwys:

- Mynd ar drywydd gwaith craffu blynyddol gyda'r Prif Weinidog, a chynnal gwaith craffu rheolaidd ar Weinidogion eraill sydd â meysydd mawr o weithgarwch rhyngwladol yn eu portffolio, megis y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, Gweinidog yr Economi, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg a'r Gweinidog Newid Hinsawdd.
- Monitro gweithgarwch rhyngwladol Llywodraeth Cymru yn barhaus gan fynd i'r afael ag unrhyw faterion o ddiddordeb drwy ohebiaeth.
- Ystyried effaith ôl troed byd-eang Cymru ac effaith ei phenderfyniadau polisi, gan gynnwys Cymru fel Cenedl Masnach Deg, rôl y swyddfeydd tramor, ymgysylltu â Chymru ar wasgar, a'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Dramor, y

Gymanwlad a Datblygu. Ymgysylltu anffurfiol â rhanddeiliaid a phartneriaid cyflawni allanol.

**43.** Gallai gwaith posibl ar Gysylltiadau Rhyngwladol yn y Chweched Senedd gynnwys:

- Y berthynas rhwng Cymru ac Iwerddon, gan gynnwys craffu ar gynllun gweithredu ar y cyd Iwerddon-Cymru, a'r berthynas rhwng y Senedd a'r Oireachtas;
- Cymru yn Ewrop, gan gynnwys cydweithio trawsffiniol, cymryd rhan yn rhaglen Horizon yr UE a datblygu rhaglen Taith+ Llywodraeth Cymru;
- Rôl digwyddiadau mawr wrth hyrwyddo Cymru i'r byd.

## Atodiad A: Crynodeb o'r tystion a'r canlyniadau ar gyfer ymchwiliadau undydd

<b>Craffu ar waith Gweinidogion 15 Medi 2021</b>	
Vaughan Gething AS	Gweinidog yr Economi
Dawn Bowden AS	Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip
Jason Thomas	Cyfarwyddwr - Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Sioned Evans	Cyfarwyddwr Busnes a'r Rhanbarthau
Paula Walsh	Dirprwy Gyfarwyddwr Cysylltiadau Rhyngwladol
Ifona Deeley	Pennaeth Cysylltiadau Rhyngwladol
<p>Holodd y Pwyllgor Weinidog yr Economi a Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon a'r Prif Chwip ynglŷn â chyflawni eu portffolio. Clywodd y Pwyllgor sesiwn frifio gan swyddogion Llywodraeth Cymru ar strategaeth ryngwladol y Llywodraeth hefyd. Mae trawsgrifiad o'r cyfarfod hwn ar gael <a href="#">yma</a>.</p> <p>Yn dilyn y cyfarfod, anfonodd y Pwyllgor y llythyrau a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Llythyr at Weinidog yr Economi a Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip yn gofyn am eglurder ynghylch rhannu'r cyfrifoldebau o fewn y portffolio; gofyn iddynt nodi eu dull strategol o ymdrin â'u cylch gorchwyl; gofyn am derfynau amser ar gyfer cyflawni amcanion y Rhaglen Lywodraethu; ac am gopiau o bob llythyr cylch gorchwyl cyrff cyhoeddus a noddir gan y Llywodraeth.</li> <li>▪ Llythyr at y Prif Weinidog yn gofyn am ei flaenoriaethau ar gyfer y cylch gorchwyl cysylltiadau rhyngwladol; ei ddyraniadau adnoddau ar gyfer y gwaith hwn; y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd ar y strategaeth ryngwladol a'r wybodaeth ddiweddaraf am 'Gymru yn Ewrop'.</li> </ul>	

<b>Craffu gweinidogol a chraffu ar Gomisiynydd y Gymraeg 29 Medi 2021</b>	
Jeremy Miles AS	Gweinidog y Gymraeg ac Addysg



Owain Lloyd	Cyfarwyddwr y Gymraeg ac Addysg
Bethan Webb	Dirprwy Gyfarwyddwr – y Gymraeg
Aled Roberts	Comisiynydd y Gymraeg
Dyfan Sion	Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg
Gwenith Price	Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg
<p>Bu'r Pwyllgor yn holi Gweinidog y Gymraeg ac Addysg am y modd y mae'n cyflawni ei bortffolio. Bu hefyd yn holi Comisiynydd y Gymraeg am ei waith, yn benodol, Adroddiad Blynyddol 2020-21 ac Adroddiad Sicrwydd 2020-21. Mae trawsgrifiad o'r cyfarfod hwn ar gael <b>yma</b>.</p> <p>O ganlyniad i'r trafodaethau yn y cyfarfod hwn, anfonodd y Pwyllgor y llythyrau a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Llythyr at y Gweinidog Addysg yn gofyn am ffigurau ar gyfer dysgu ar-lein; y wybodaeth ddiweddaraf am y comisiwn i gefnogi'r Gymraeg fel iaith gymunedol; a deddfwriaeth arfaethedig a chymorth i'r Eisteddfod Genedlaethol.</li> <li>▪ Llythyr at Gomisiynydd y Gymraeg am y gwaith y mae ei swyddfa'n ei wneud yn rhyngwladol; manylion am ei bryderon am yr iaith o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig i gymorth i amaethyddiaeth ac effaith COVID-19 ar y Gymraeg yn y gweithle.</li> <li>▪ Llythyr at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru yn gofyn am wybodaeth am gynlluniau i liniaru'r effaith bosibl ar y Gymraeg yn sgil cynigion i newid y ffordd y mae cymorth i amaethyddiaeth yn cael ei ddarparu.</li> </ul>	

<b>Ymateb i Sgrin Fach: 13 Hydref 2021</b>	
<b>Trafodaeth Fawr</b>	
Elinor Williams	Pennaeth Materion Rheoleiddio, Ofcom Cymru
Rhuanedd Richards	Cyfarwyddwr Rhaglenni a Gwasanaethau, BBC Cymru Wales
Phil Henfrey	Pennaeth Newyddion a Rhaglenni, ITV Cymru
Owen Evans	Prif Weithredwr, S4C
Caitriona Noonan	Prifysgol Caerdydd

Ruth McElroy	Pwyllgor Cyngtori Ofcom yng Nghymru
Hywel William	Cadeirydd Pwyllgor Cyngtori Ofcom yng Nghymru
Gareth Williams	Teledwyr Annibynnol Cymru (TAC)
<p>O ganlyniad i'r trafodaethau yn y cyfarfod hwn, cytunodd y Pwyllgor ar adroddiad byr 'Ymateb i Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr' a anfonwyd at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ddechrau mis Rhagfyr. Mae trawsgrifiad o'r cyfarfod hwn ar gael <a href="#">yma</a>.</p> <p>Mae copi o'r adroddiad yn dilyn y cyfarfod hwn ar gael <a href="#">yma</a>.</p>	

<b>Ymchwiliad undydd i chwaraeon</b>		<b>20 Hydref 2021</b>
Brian Davies	Prif Swyddog Gweithredol, Chwaraeon Cymru	
Victoria Ward	Prif Swyddog Gweithredol, Cymdeithas Chwaraeon Cymru	
Jennifer Huygen	Pennaeth Polisi a Phartneriaethau Strategol, Community Leisure UK	
Melitta McNarry	Athro, Gwyddorau Chwaraeon ac Ymarfer Corff, Prifysgol Abertawe	
Noel Mooney	Prif Swyddog Gweithredol, Cymdeithas Bêl-droed Cymru	
Fergus Feeney	Prif Swyddog Gweithredol, Nofio Cymru	
Rob Butcher	Cadeirydd, Undeb Rygbi Cymru	
Sarah Jones	Pêl Rwyd Cymru	
Steve Phillips	Prif Weithredwr, Undeb Rygbi Cymru	
Mark Killingley	Pennaeth Digidol a Chyfathrebu, Undeb Rygbi Cymru	
<p>Holodd y Pwyllgor y cyrff cynrychioliadol chwaraeon a'r undebau chwaraeon cenedlaethol am amrywiaeth o heriau sy'n wynebu eu chwaraeon perthnasol. Roedd hyn yn cynnwys adferiad ar ôl y pandemig Covid-19 a pha faterion y dylai'r Pwyllgor ganolbwyntio arnynt yn ystod y Chweched Senedd. Mae trawsgrifiad o'r cyfarfod hwn ar gael <a href="#">yma</a>.</p>		

Yn dilyn y cyfarfod, ysgrifennodd y Pwyllgor at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i'w gwahodd i gyfarfod i drafod effaith gwasanaethau ffrydio byd-eang ar ddarllledwyr sector cyhoeddus Cymru, gan dynnu sylw at effaith darlledu gemau rhyngwladol yr Hydref yn fyw ar Amazon.

**Ymchwiliad undydd i  
dreftadaeth, amgueddfeydd  
ac archifau**

**10 Tachwedd 2021**

Christopher Catling	Ysgrifennydd, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
David Thomas	Pennaeth Gwasanaethau Cyhoeddus, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
Nest Thomas	Llywydd, Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Oriolau Celf Cymru
Sharon Heal	Cyfarwyddwr, Cymdeithas yr Amgueddfeydd
David Anderson	Cyfarwyddwr Cyffredinol, Amgueddfa Genedlaethol Cymru
Neil Wicks	Prif Swyddog Gweithredu a Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol, Amgueddfa Genedlaethol Cymru
Pedr ap Llwyd	Prif Weithredwr a Llyfrgellydd Cenedlaethol, Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Owain Roberts	Dirprwy Brif Weithredwr a Llyfrgellydd
Kath Davies	Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil
Nia Williams	Cyfarwyddwr Dysgu ac Ymgysylltu
Rebecca Nelson	Cyfarwyddwr Cyllid a Swyddog Cyfrifyddu, Cyngor Celfyddydau Cymru
Diane Hebb	Cyfarwyddwr Ymgysylltu â'r Celfyddydau, Cyngor Celfyddydau Cymru

Holodd y Pwyllgor y cyrff cenedlaethol ym meysydd treftadaeth, amgueddfeydd ac archifau am amrywiaeth o heriau sy'n wynebu eu sefydliadau a'u sectorau. Roedd hyn yn cynnwys adferiad ar ôl y pandemig Covid-19 a pha faterion y dylai'r Pwyllgor

ganolbwyntio arnynt yn ystod y Chweched Senedd. Mae trawsgrifiad o'r cyfarfod hwn ar gael [yma](#).

Yn sgil y trafodaethau yn y cyfarfod hwn, ysgrifennodd y Pwyllgor at Amgueddfa Genedlaethol Cymru i ofyn am ragor o fanylion am ei Strategaeth tan 2030; ei hymateb i'r adroddiadau 'Ehangu Ymgysylltiad' a gyhoeddwyd ym mis Awst 2021 a diweddariad ar ei thrafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ynghylch ei Dangosyddion Perfformiad Allweddol. Hefyd, ysgrifennodd y Pwyllgor at Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol ac Amgueddfa Bêl-droed Genedlaethol. Mae'r holl ohebiaeth sy'n gysylltiedig â'r sesiwn dystiolaeth hon ar gael [yma](#).

<b>Ymchwiliad undydd i'r celfyddydau a'r diwydiannau creadigol</b>		<b>24 Tachwedd 2021</b>
Rebecca Nelson	Cyfarwyddwr Cyllid a Swyddog Cyfrifyddu, Cyngor Celfyddydau Cymru	
Diane Hebb	Cyfarwyddwr Ymgysylltu â'r Celfyddydau, Cyngor Celfyddydau Cymru	
Gillian Mitchell	Prif Weithredwr, Celfyddydau Ieuencid Cenedlaethol Cymru	
Lorne Campbell	Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Artistig, Theatr Genedlaethol Cymru	
Louise Miles-Payne	Cyfarwyddwr, Creu Cymru	
Clara Cullen	Rheolwr Cymorth Lleoliadau, Ymddiriedolaeth Lleoliadau Cerddoriaeth	
Sara Pepper	Cyfarwyddwr yr Economi Greadigol, Prifysgol Caerdydd	
Dyfrig Davies	Cadeirydd, TAC	
Pauline Burt	Prif Weithredwr, Ffilm Cymru	

Holodd y Pwyllgor gyrff o'r diwydiannau celfyddydol a chreadigol am amrywiaeth o heriau sy'n wynebu eu sectorau. Roedd hyn yn cynnwys adferiad ar ôl y pandemig Covid-19 a pha faterion y dylai'r Pwyllgor ganolbwyntio arnynt yn ystod y Chweched Senedd. Mae trawsgrifiad o'r cyfarfod hwn ar gael [yma](#).

Yn dilyn y drafodaeth yn y cyfarfod hwn, ysgrifennodd y Pwyllgor at Lywodraeth Cymru i ofyn pa gymorth y mae wedi'i roi i Gyngor Celfyddydau Cymru i'w helpu i lenwi swydd wag y Prif Weithredwr ac anfonodd lythyr ar wahân i ofyn pa gynlluniau sydd gan y Llywodraeth i gefnogi'r sector yn ariannol ac am fanylion am effaith y pàs COVID-19 ar leoliadau diwylliannol. Mae'r holl gamau gweithredu sy'n codi o'r ymchwiliad hwn ar gael [yma](#).

<b>Ymchwiliad undydd i'r Gymraeg</b>		<b>8 Rhagfyr 2021</b>	
Dr Ioan Matthews		Prif Weithredwr, Coleg Gymraeg Cenedlaethol	
Gwenllian Lansdown Davies		Prif Weithredwr, Mudiad Meithrin	
Iestyn Davies		Prif Weithredwr, Colegau Cymru	
Mabon Dafydd		Llywydd, Undeb Myfyrwyr Bangor	
Siân Lewis		Prif Weithredwr, Urdd Gobaith Cymru	
Betsan Moses		Prif Weithredwr, yr Eisteddfod Genedlaethol	
Tegwen Morris		Cyfarwyddwr Cenedlaethol, Merched y Wawr	
Caryl Hâf		Cadeirydd y Cyngor, Ffederasiwn Clwb Ffermwyr Ifanc	
Ruth Richards		Prif Weithredwr, Dyfodol i'r Iaith	
Mabli Jones		Cadeirydd, Cymdeithas yr Iaith	
Efa Gruffudd Jones		Prif Weithredwr, y Ganolfan Dysgu Gymraeg Genedlaethol	
Dewi Snelson		Cadeirydd, Mentrau Iaith Cymru	
<p>Holodd y Pwyllgor y cyrff sy'n ymwneud â'r Gymraeg am amrywiaeth o heriau sy'n wynebu eu sectorau. Roedd hyn yn cynnwys adferiad ar ôl y pandemig Covid-19 a pha faterion y dylai'r Pwyllgor ganolbwyntio arnynt yn ystod y Chweched Senedd. Mae trawsgrifiad o'r cyfarfod hwn ar gael <a href="#">yma</a>.</p>			

<b>Ymchwiliad undydd ar Gysylltiadau Rhyngwladol</b>		<b>2 Chwefror 2022</b>
Susie Ventris-Field	Prif Swyddog Gweithredol, Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru	
Claire O'Shea	Cadeirydd, Grŵp Asiantaethau Tramor Cymru	
Zara May	Pennaeth Cymunedau a Gweithrediadau, GlobalWelsh	
Jenny Scott	Cyfarwyddwr, British Council	
Charles Whitmore	Cymrawd Ymchwil, Canolfan Llywodraethiant Cymru, Prifysgol Caerdydd	
Ben Lloyd	Pennaeth Polisi Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru	
Berwyn Davies	Pennaeth Swyddfa Addysg Uwch Cymru Brwsel	
Noel Mooney	Prif Swyddog Gweithredol, Cymdeithas Bêl-droed Cymru	
Eluned Hâf	Pennaeth, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru	
Siân Lewis	Prif Swyddog Gweithredol, Urdd Gobaith Cymru	
<p>Holodd y Pwyllgor y sefydliadau rhyngwladol am amrywiaeth o heriau sy'n wynebu eu sectorau. Roedd hyn yn cynnwys adferiad ar ôl y pandemig Covid-19 a pha faterion y dylai'r Pwyllgor ganolbwyntio arnynt yn ystod y Chweched Senedd. Mae trawsgrifiad o'r cyfarfod hwn ar gael <a href="#">yma</a>.</p>		

<b>Gosod strategaeth</b>	<b>13 Medi a 15 Rhagfyr 2021</b>
<p>Daeth Aelodau'r Pwyllgor ynghyd am ddwy sesiwn i drafod:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ trefniadau gwaith, megis cwestiynu effeithiol;</li> <li>▪ blaenoriaethau strategol ar gyfer gwaith yn ystod y Chweched Senedd;</li> <li>▪ protocolau ar gyfer cytuno ar allbynnau'r Pwyllgor megis gohebiaeth ac adroddiadau; ac</li> <li>▪ ymchwiliadau ar gyfer Tymor y Gwanwyn 2022.</li> </ul>	

## Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Cyflwynodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar Flaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol [ar gael yma](#).

Cyfeirnod	Sefydliad
PSS01	Creative Lives
PSS02	Cyngor Celfyddydau Cymru
PSS03	S4C
PSS04	Rhwydwaith, Iechyd a Llesiant Celfyddydau Cymru
PSS05	Conffederasiwn GIG Cymru
PSS06	Uned Economi Greadigol, Prifysgol Caerdydd
PSS07	Grŵp Asiantaethau Tramor Cymru
PSS08	Dyfodol i'r Iaith
PSS09	Ymateb gan unigolyn
PSS10	Maint Cymru
PSS11	Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol
PSS12	Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
PSS13	Canolfan Llywodraethiant Cymru
PSS14	Diverse Cymru
PSS15	Coleg Cymraeg Cenedlaethol
PSS16	ITV Cymru Wales
PSS17	Canolfan Cydweithredol Cymru
PSS18	Colegau Cymru
PSS19	Cymru dros Ewrop
PSS20	Comisiynydd y Gymraeg
PSS20.2	Comisiynydd y Gymraeg
PSS21	Celfyddydau Cenedlaethol Ieuencid Cymru

<b>PSS22</b>	Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru
<b>PSS23</b>	Mudiad Meithrin
<b>PSS24</b>	Ymateb gan unigolyn
<b>PSS25</b>	Prifysgolion Cymru ac Addysg Uwch Cymru Brwsel
<b>PSS26</b>	Cyngor Celfyddydau Cymru
<b>PSS27</b>	Llyfrgell Genedlaethol Cymru
<b>PSS28</b>	Community Leisure UK
<b>PSS29</b>	Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr
<b>PSS30</b>	Llenyddiaeth Cymru
<b>PSS31</b>	Cyngor Cyfathrebu Cenedlaethol
<b>PSS32</b>	TAC
<b>PSS33</b>	Tŷ Cerdd
<b>PSS34</b>	Federation of Small Businesses
<b>PSS35</b>	Bandiau Pres Cymru
<b>PSS36</b>	Chwaraeon Cymru
<b>PSS37</b>	Prifysgol Caerdydd
<b>PSS38</b>	CLILC
<b>PSS39</b>	Royal College of Physicians Cymru Wales